

Llythyr Hawdd ei Ddeall

At: Mr Nigel Brown
Prif Weithredwr
Cafcass Cymru



Mae hwn yn llythyr gan **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**.



Mae'n ymwneud â beth welsom pan wnaethom archwilio **Cafcass Cymru** rhwng 13 a 17 Mehefin 2022.



Cafodd ei alw'n **Archwiliad Sicrwydd**. Ei bwrpas oedd gwirio pa mor dda y mae Cafcass Cymru yn gwneud ei waith.

Roedd yr **Archwiliad Sicrwydd** yn edrych ar y prif bethau hyn:



- Pa mor dda y mae Cafcass Cymru yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn iach.



Pa mor dda y mae Cafcass Cymru yn sicrhau bod anghenion a safbwyntiau plant yn cael eu clywed.

Gwnaethom hefyd edrych ar:



- Pa mor dda y mae Cafcass Cymru yn cael ei redeg.
- Sut mae Cafcass Cymru wedi dysgu gwersi o'i brofiad.
- A sut mae gwersi a ddysgwyd yn cael eu defnyddio i wella'r gwasanaeth.

Dyma rai o'r prif bethau y gwnaethom eu darganfod:



Mae Cafcass Cymru wedi bod yn gweithio mewn ffyrdd newydd oherwydd pandemig COVID-19.



Mae llawer o'r staff yn gweld y ffyrdd newydd o weithio yn well. Er enghraifft, cael rhai gwrandawriadau llys ar-lein.



Mae'r gwaith wedi bod yn anodd i lawer o staff. Yn rhannol oherwydd na chafodd anghenion y bobl maen nhw'n eu cefnogi eu diwallu'n llawn yn ystod y pandemig.

Tudalen 2



Mae iechyd meddwl plant wedi gwaethygu, ac mae hyn wedi bod yn her i staff.

Mae Cafcass Cymru yn helpu i sicrhau bod plant yn cael gofal da. Ac maent yn cael eu hamddiffyn rhag:

- trais
- **camdriniaeth**



Camdriniaeth yw pan fydd rhywun yn eich brifo neu'n eich trin yn wael. Mae yna wahanol fathau o gamdriniaeth.

- **esgeulustod**




Esgeulustod yw pan nad yw rhywun yn derbyn gofal neu ofal priodol. Mae'n fath o **gamdriniaeth**.



Mae Cafcass Cymru yn sicrhau bod plant yn cael yr help sydd ei angen arnynt os ydynt wedi cael eu **cam-drin** neu eu **hesgeuluso**.



Rydyn ni'n meddwl bod staff Cafcass Cymru yn rhoi cymorth o ansawdd da.



Mae'r adroddiadau y mae staff Cafcass Cymru yn eu hysgrifennu o ansawdd da ac yn dangos barn y plant.



Mae'r adroddiadau'n dangos y gwrandewir ar y plant y maent yn eu cefnogi. Ac mae'r hyn maen nhw ei eisiau yn cael ei werthfawrogi.



Mae Cafcass Cymru yn sicrhau bod eu staff yn gwybod beth sy'n digwydd. Mae'r staff yn teimlo y gallant siarad â rheolwyr.

Dyma rai o'r pethau gorau y gwnaethom eu darganfod am Cafcass Cymru:



Mae gan y bobl â gofal lawer o brofiad.



Maent yn poeni llawer am lesiant plant a phobl ifanc.




Mae Cafcass Cymru yn ceisio dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio i wella gwasanaethau.



Mae Cafcass Cymru yn siarad â sefydliadau eraill. Ac yn gweithio'n dda gyda nhw.



Roedd gweithwyr proffesiynol eraill yn canmol Cafcass Cymru a'r gwaith y maent yn ei wneud.



Mae gan staff Cafcass Cymru y sgiliau cywir sydd eu hangen i wneud eu gwaith yn dda.



Mae staff newydd wedi'u hyfforddi'n dda.



Mae rhai staff wedi cael eu cyflogi i wirio ansawdd gwaith Cafcass Cymru.



Mae'r cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu gwirio'n dda, i wneud yn siŵr bod plant a'u teuluoedd yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi.



Mae llawer o ystyriaeth yn cael ei rhoi i lesiant plant a phobl ifanc.



Maen nhw'n dweud wrth y llysoedd beth yw anghenion cymorth y plant.



Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'r risgiau y gall plant eu hwynebu. Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y gall plant gael eu heffeithio.



Mae'r plant a'r bobl ifanc yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw.



Mae'r staff yn ceisio sicrhau bod hawliau'r plant yn cael eu cefnogi.



Gwelsom enghreifftiau o waith da yn cael ei wneud gyda phlant.



Roedd barn y plant a'r oedolion yn cael ei chlywed a'i pharchu.



Gall Cafcass Cymru ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.



Maent yn defnyddio cyfieithwyr ar gyfer ieithoedd eraill pan fo angen.


Dyma rai o'r pethau sydd angen eu gwella:



Dywedodd staff Cafcass Cymru eu bod yn cael gormod o waith yn aml.



Roedd rhai aelodau o staff yn teimlo bod angen mwy o hyfforddiant arnynt.




Mae angen gwella rhai cofnodion ac adroddiadau. Weithiau nid oedd digon o wybodaeth ynddynt.



Byddai'n ddefnyddiol pe bai gwybodaeth yn cael ei rhoi bob amser i deuluoedd pan fydd Cafcass Cymru yn cymryd rhan.



Byddwn yn parhau i wirio gwaith Cafcass Cymru i wneud yn siŵr eu bod yn gwella lle bo angen.



Hoffem weld ein hawgrymiadau ar gyfer gwelliannau yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau Cafcass Cymru.



Hoffem ddiolch i bawb a siaradodd â ni.

Lou Bushell-Bauers

Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Arolygiaeth Gofal Cymru